

## CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga  
Dydd Mawrth, 21ain Mai, 2024, 10.00 am

CYNGHORWYR  
YN  
BRESENNOL: Cynghorydd Sirol Tudor Thomas (Cadeirydd)

Cynghorydd Sirol: Tony Easson, Christopher Edwards,  
Simon Howarth, Jane Lucas, Jayne McKenna, Alistair Neill,  
Sue Riley, Dale Rooke, Jackie Strong, Armand Watts

### SWYDDOGION YN BRESENNOL:

David Jones	Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Linda O'Gorman	Prif Swyddog Trwyddedu
Emma Watkins	
Julian Sanders	Solicitor
Anna Hawker	Trainee Solicitor
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

### YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol Lisa Dymock

#### 1. Ethol Cadeirydd.

Etholwyd y Cynghorydd Sir Tudor Thomas yn Gadeirydd.

#### 2. Ethol Is-Gadeirydd.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Jayne McKenna yn Is-Gadeirydd.

#### 3. Datganiadau o Fuddiant.

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant wedi eu derbyn.

#### 4. Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio ar 9fed Ebrill 2024 fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

#### 5. Datganiad y Polisi Gamblu a Chynigion am Gasinos.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Trwyddedu y Datganiad Drafft o Bolisi Hapchwarae 2025' cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau:

<https://www.youtube.com/live/6nlirrJdkH0?si=LuV80PJsfKV79Wu6&t=325>

## CYNGOR SIR FYNWY

### Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga Dydd Mawrth, 21ain Mai, 2024, 10.00 am

Cytunwyd i:

- (i) cadw'r penderfyniad presennol i beidio â rhoi trwyddedau casino yn Sir Fynwy cyn iddo gael ei ystyried yn y Cyngor Llawn.
- (ii) ar ôl adolygu'r datganiad Polisi Hapchwarae wedi'i ddiweddarau arfaethedig ar gyfer y cyfnod 31ain Ionawr 2025 i 30ain Ionawr 2028, dylid ceisio cymeradwyaeth i gychwyn y broses ymgynghori statudol cyn penderfynu ar y datganiad newydd.

#### **6. Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd.**

Gwnaethom wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes a ganlyn yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei fod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

#### **7. Ystyried a yw'r gyrrwr yn addas a phriodol i ddal Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Llogi Preifat.**

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i'r cyfarfod a chyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion a oedd yn bresennol ac esboniodd y protocol ar gyfer y cyfarfod.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei enw a'i gyfeiriad i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd yr ymgeisydd dderbyn yr adroddiad a chydabu y byddent yn bwrw ymlaen heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

Darllenwyd y materion allweddol a'r manylion i'r Pwyllgor.

Yna rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd annerch y Pwyllgor, i gyflwyno unrhyw esboniadau perthnasol. Yn dilyn hyn, cyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau i'r ymgeisydd a chafwyd trafodaeth. Yna rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd grynhoi.

Yn dilyn y cwestiynau, gadawodd y swyddogion a'r ymgeisydd y cyfarfod er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried a thrafod y canfyddiadau.

Ar ôl ailddechrau, dywedodd y Cadeirydd y byddai ystyriaeth o'r cais i ddal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat yn cael ei ohirio tan gyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio yn y dyfodol er mwyn rhoi cyfle i'r ymgeisydd gael cyfieithydd a chynghorydd cyfreithiol yn bresennol gyda hwy.

#### **8. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Dydd Mawrth 9fed Gorffennaf 2024 am 10.00am.